GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

**Russell George, MS**
Cadeirydd, Pwyllgor Iechyd a Godal Cymdeithasol
Russell.george@senedd.wales

**Mark Isherwood, MS**
Cadeirydd, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus & Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Mark.isherwood@senedd.wales

**Ein cyf / Our ref:** DE/LMR/CE23-L904
**Eich cyf / Your ref:**
**☎:**
**Gofynnwch am / Ask for:** Dyfed Edwards
**E-bost / Email:**
[redacted]
**Dyddiad / Date:** Medi 13, 2023

Annwyl Russell a Mark

**BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Gorffennaf 2023, a derbyniwch fy ymddiheuriad am yr oedi cyn ymateb. A gaf i ofyn i chi anfon unrhyw ohebiaeth yn uniongyrchol ataf fy hun yn y Bwrdd Iechyd?

Yn eich llythyr, gwnaethoch ofyn am ystyriaeth o'r materion canlynol:

**1. Cadarnhad o statws y Cynllun Ymateb Sefydliadol Mesurau Arbennig a dderbyniwyd gan Fwrdd BIPBC ar 25 Mai 2023.**

Bu'r Bwrdd yn ystyried ac yn cymeradwyo'r dull arfaethedig a'r Cynllun Ymateb Mesurau Arbennig drafft ar 25 Mai. Roedd hyn yn cynrychioli cylch 1 (90 diwrnod) o'r Cyfnod Sefydlogi. Mae tri cham fel yr amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys sefydlogi, safoni a chynaliadwyedd. Roedd y cylch 90 diwrnod cyntaf yn cynnwys nifer o adolygiadau o feysydd penodol gyda'r rhain yn cael eu cynnal gan Gynghorwyr Annibynnol neu unigolion a gomisiynwyd ar wahân gan Lywodraeth Cymru. Mae nifer o'r adolygiadau bellach wedi'u derbyn ac maent yn cael eu hystyried er mwyn helpu i lywio camau pellach i'w cymryd gan y Bwrdd Iechyd. Bydd y Bwrdd yn ystyried y cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Ymateb Cylch 1 yn ei gyfarfod ar 28 Medi 2023. Bydd yr ail gylch 90 diwrnod hefyd yn cael ei ystyried i'w gymeradwyo yn y cyfarfod hwn.

**2. Beth yw'r prosesau a'r amserlen adrodd mewn perthynas â chynnydd yn erbyn y Cynllun hwnnw, gan gynnwys unrhyw adrodd yn erbyn y camau 90 diwrnod.**

Mae'r mecanweithiau adrodd ar lefel Weithredol a thrwy'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau. Mae adroddiadau'r Bwrdd yn benodol yn rhoi trosolwg o'r cynnydd, amlinelliad lle mae angen gwneud rhagor o waith neu ar y gweill ac mae'n nodi ble y gallai fod oedi posibl neu wirioneddol yn y gwaith sy'n mynd rhagddo. Mae gan y Bwrdd Iechyd ryngweithio allweddol â Llywodraeth Cymru drwy'r Fforwm Mesurau Arbennig Gweinidogol a thrwy'r Bwrdd Sicrwydd Mesurau Arbennig.

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

**3. Cytundeb y bydd y Bwrdd yn darparu unrhyw adroddiadau cynnydd, gan gynnwys adroddiadau a ystyriwyd gan Fwrdd BIPBC ar gyfer y pwyllgorau.**

Mae'r Bwrdd yn hapus i gytuno i rannu ei adroddiadau mewn perthynas â chynnydd Mesurau Arbennig. Os oes unrhyw ofynion penodol, peidiwch ag oedi cyn rhoi gwybod i mi.

Yn gywir

**Dyfed Edwards**
**Cadeirydd**

*Mae swyddfa'r Cadeirydd yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a bydd yn sicrhau y darperir ymateb yn Gymraeg heb oedi.*

*The Chairman's office welcomes correspondence through the medium of Welsh and will ensure that a response is provided in Welsh without incurring a delay.*